Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Adroddiad Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

## Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27.

Mae'n rhoi ymatebion i'r 10 o argymhellion a wnaed yn Adroddiad y Pwyllgor.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 3**

**2. Asesiad Effaith Integredig Strategol ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ..... 4**

Argymhelliad 1 ..... 4

Argymhelliad 2 ..... 5

**3. Iechyd a Gofal Cymdeithasol ..... 6**

Argymhelliad 3 ..... 6

Argymhelliad 4 ..... 7

Argymhelliad 5 ..... 14

Argymhelliad 6 ..... 15

Argymhelliad 7 ..... 16

**4. Addysg ..... 18**

Argymhelliad 8 ..... 18

Argymhelliad 9 ..... 19

Argymhelliad 10 ..... 20

# 1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 mewn dau gam. Cyhoeddwyd cyllideb ddrafft amlinellol 2026-27 ar 14 Hydref 2025 a chyhoeddwyd cyllideb ddrafft fanwl 2026-27 ar 3 Tachwedd 2025. Roedd yn nodi'r cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2027.

Fel rhan o'r broses gyllidebol, rhoddwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch mewn perthynas â chyllidebau yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant mewn perthynas â chyllidebau yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol i lywio'r broses o graffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27. Rhoddodd y papurau hyn wybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ddyraniadau cyllidebol.

Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar ar 19 a 27 Tachwedd 2025 lle cafodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg; y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch; Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol; y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol; a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 ar 15 Rhagfyr. Diolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried adroddiad y pwyllgor ac mae'n ymateb i'r argymhellion isod.

# 2. Asesiad Effaith Integredig Strategol ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

## Argymhelliad 1

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu gyda'r Senedd fel mater o flaenoriaeth ganlyniadau'r dadansoddiad effaith pellach sy'n cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau cyllidebol. Dylid darparu hyn fan bellaf cyn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yw'r offeryn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i asesu effaith ein penderfyniadau gwariant, ac mae'n broses iteraidd sy'n dechrau yn y Gwanwyn pan fydd y Cabinet yn ystyried strategaeth y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol ac yn parhau drwy gydol y cylch cyllidebol.

Eleni, gwnaethom gyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol interim adeg y Gyllideb Ddrafft, a ddarparodd asesiad o effaith y penderfyniadau a wnaed wrth baratoi'r Gyllideb Ddrafft. Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaethom nodi'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol eleni, gan gynnwys ein bwriad i gyhoeddi asesiad pellach adeg y Gyllideb Derfynol, a fydd, am y tro cyntaf, yn sicrhau bod pob ystyriaeth o effaith drwy gydol cylch y gyllideb yn cael ei chyhoeddi er mwyn gwella tryloywder.

Ers y Gyllideb Ddrafft, rydym wedi cynnal dadansoddiad pellach o'r dystiolaeth ac wedi cynnal trafodaethau manwl, wedi'u targedu yn holl adrannau Llywodraeth Cymru i roi ystyriaeth ddyfnach i effeithiau trawsbynciol. Cynhaliwyd y rhain mewn meysydd ffocws a nodwyd, gan gynnwys hawliau plant, y Gymraeg, cydraddoldeb, anfantais economaidd-gymdeithasol, a gwariant ataliol er mwyn llywio'r penderfyniadau a wneir yn y Gyllideb Derfynol. Nodir y dadansoddiad hwnnw yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol Derfynol a gyhoeddwyd adeg y Gyllideb Derfynol ar 20 Ionawr.

## Argymhelliad 2

Rhaid i Lywodraeth Cymru gynhyrchu a chyhoeddi Asesiad annibynnol o'r Effaith ar Hawliau Plant o'i Chyllideb Ddrafft 2027-28 i ddangos ei bod yn cydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, fel y nodir yng Nghynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru ei hun.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ac yn llunio Asesiad Effaith Integredig Strategol mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol, sy'n ystyried effeithiau cronnol a thrawsbynciol penderfyniadau cyllidebol y Cabinet. Nid yw hyn yn disodli nac yn dyblygu'r asesiadau effaith unigol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w cynnal mewn perthynas â phenderfyniadau polisi a gwariant unigol.

Mae Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru yn nodi bod yn rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o broses yr Asesiad Effaith Integredig. Cynhelir yr Asesiadau Effaith Integredig hyn yn gynnar yn y broses pan fydd polisïau a rhaglenni'n cael eu datblygu. Credwn o hyd mai dyma'r lle cywir i ystyried effaith fanwl ein polisïau ar hawliau plant. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn cynnwys ystyriaeth o effaith y Gyllideb ar blant ar lefel strategol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol. Bydd y sefyllfa hon, wrth gwrs, yn parhau i gael ei hadolygu.

# 3. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mesurau allweddol sy'n dangos orau y gwelliant mewn iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Dylai'r dangosyddion hyn ddod ynghyd ag esboniad o sut maent yn llywio penderfyniadau cyllidebol a sut maent yn sicrhau bod canlyniadau, yn hytrach na gweithgareddau yn unig, yn cael eu rheoli a'u cyflawni'n effeithiol.

**Ymateb: Cytuno mewn egwyddor**

Rydym yn defnyddio nifer o fesurau i fonitro canlyniadau iechyd a llesiant plant, sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau polisi a'n hamcanion strategol cyffredin ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd plant wedi'i gynnwys yn nyraniadau cyffredinol Byrddau Iechyd. Cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd yw cynllunio a chomisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion eu poblogaethau lleol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, drwy eu prosesau cynllunio statudol.

Rydym yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Plant i ddatblygu Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Iechyd Plant. Bydd y Datganiad Ansawdd Integredig yn gweithredu fel adnodd gwella ansawdd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, gan nodi safonau clir, mesuradwy y dylai pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth eu cymhwyso ym mhob lleoliad gofal sylfaenol, eilaidd, a thrydyddol. Ei ddiben yw ysgogi cysondeb, atebolrwydd, a gwelliant parhaus mewn gofal i fabanod, plant a phobl ifanc, gyda phwyslais cryf ar atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau niwed y gellir ei osgoi a hyrwyddo iechyd a llesiant gydol oes.

Yn sgil cyhoeddi'r Datganiad Ansawdd Integredig, bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd gysoni eu gwaith cynllunio a chyflawni (o fewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ac adroddiadau ar ansawdd) â'r disgwyliadau hyn.

## Argymhelliad 4

Cyn y bleidlais ar y Gyllideb Derfynol, bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd y dyraniadau cyllideb yn cyflawni ei hamcanion polisi yn benodol mewn perthynas â:

- Diogelu plant a’r gweithlu gofal cymdeithasol statudol plant;
- Cefnogi awdurdodau lleol gyda chostau lleoli cynyddol cyn i'r gyfraith ar gyfyngu elw o ofal plant ddod i rym yn llawn;
- Ei hymrwymiad i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed, yn hytrach na'r 66 y cant presennol;
- Amseroedd aros pediatrig;
- Datblygu gweithlu iechyd plant cynaliadwy;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed a chymorth iechyd meddwl ehangach i blant a phobl ifanc;
- Gwasanaethau niwroddatblygiadol ac yn benodol gwaith i leihau'r amseroedd aros am asesiad.
- Y Cynllun Gwên.

Dylai hyn hefyd gynnwys gwybodaeth am sut y byddant yn monitro canlyniadau’r gwariant hwn ac yn asesu a yw’n cyflawni bwriad y polisi

**Ymateb: Derbyn**

**Diogelu plant a’r gweithlu gofal cymdeithasol statudol plant**

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn meysydd allweddol i gryfhau'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau plant statudol. Ein nod yw denu mwy o bobl i'r sector hanfodol hwn a helpu i leddfu'r pwysau o ran recriwtio a chadw staff a wynebir ar hyn o bryd. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cynnwys:

- Bwrsari Gweithwyr Cymdeithasol o dan Hyfforddiant – Cynnal ein hymrwymiad i’r cynnig bwrsari gwell, gan ddarparu £1.4 miliwn yn flynyddol i wneud y radd mewn gwaith cymdeithasol yn fwy fforddiadwy ac yn fwy atyniadol i newydd-ddyfodiaid.
- Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru – Drwy ein cyllid i Gofal Cymdeithasol Cymru, mae £13 miliwn ar gael i gefnogi ystod eang o gyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys y rhaglen i 'feithrin eich gweithlu' gweithwyr cymdeithasol

eich hun.  Mae Cynlluniau 'Meithrin Eich Gweithlu' yr awdurdodau lleol yn cefnogi cyflogaeth am dâl a hyfforddiant gwaith cymdeithasol wedi'i ariannu, ochr yn ochr â datblygu cymunedau ymarfer a darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ledled y sector.

- Grant y Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy – Gan barhau â’n hymrwymiad i ddarparu £45 miliwn i bob un o’r 22 o awdurdodau lleol, mae’r cyllid cylchol hwn yn cefnogi codiadau cyflog a mesurau eraill i gryfhau'r broses o ddarparu gwasanaethau ac i ateb y galw cynyddol.

**Cefnogi awdurdodau lleol gyda chostau cynyddol lleoliadau cyn i'r gyfraith ar gyfyngu ar elw o ofal plant ddod i rym yn llawn**

Mae'r grant Dileu a Diwygio Radical wedi darparu £69.6 miliwn dros y tair blynedd ddiwethaf i alluogi awdurdodau lleol a rhanbarthau i gefnogi'r gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau a fydd yn rhoi mwy o reolaeth iddynt dros leoliadau. Mae hyn yn cynnwys datblygu darpariaeth fewnol newydd yn ogystal ag ymgysylltu â darparwyr nid-er-elw eraill. Bydd datblygu’r gwasanaethau hyn yn helpu i liniaru’r costau cynyddol sy’n gysylltiedig â rhai darpariaethau er elw, ac yn cefnogi awdurdodau i sefydlogi lleoliadau wrth baratoi ar gyfer newidiadau deddfwriaethol a'u rhoi ar waith. Yn y dyfodol, bydd y grant yn cael ei gynnal ar lefel hyd at £25 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2026–27.

Yn fwy cyffredinol, mae'r cyllid grant a ddyrannwyd i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cefnogi gwaith cynllunio'r awdurdodau lleol ar lefel genedlaethol, gan gynnwys cynllunio gwasanaethau newydd i liniaru'r cynnydd mewn costau lleoliadau.

O ran monitro canlyniadau’r cyllid, gwneir hyn drwy brosesau monitro grantiau ffurfiol, ochr yn ochr â gweithio’n agos gydag awdurdodau lleol drwy amrywiol strwythurau llywodraethu'r rhaglenni, gan gynnwys Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw a’r Ffrwd Waith 1 sylfaenol, sy’n canolbwyntio ar ehangu a datblygu darpariaeth newydd gan awdurdodau lleol ac yn rhanbarthol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau adroddiad cynnydd ar y broses o bontio i fodel nid-er-elw. Mae'r rhain yn cynnwys data manwl ar wasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig, wedi’u dadansoddi yn ôl awdurdod lleol ac ardaloedd byrddau partneriaeth rhanbarthol.

**Ei hymrwymiad i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed, yn hytrach na'r 66 y cant presennol**

Mae cyfyngiadau o ran capasiti yn y sector, ynghyd â’r angen am fwy o gyllid, yn golygu bod cydnabyddiaeth ers 2023 na fyddai ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i roi gofal plant wedi’i ariannu i bob plentyn 2 oed yn cael ei wireddu erbyn diwedd tymor y Senedd hon.

Er gwaethaf hyn, mae'r rhaglen ehangu wedi bod yn gwneud cryn gynnydd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae dau awdurdod lleol (Abertawe a Merthyr) bellach wedi cwblhau'r broses o gyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg, gan olygu y bydd pob plentyn dwy

oed yn eu hardaloedd yn gallu manteisio ar ddarpariaeth gofal plant o ansawdd uchel gan Dechrau'n Deg.

Mae'r Gyllideb Derfynol yn cadw'r dyraniad cyllid cyfredol yn y Grant Plant a Chymunedau ar gyfer Rhaglen Ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg. Bydd hyn dros £222 miliwn yn 2026-27.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a chymorth iechyd meddwl ehangach i blant a phobl ifanc**

Rydym yn parhau i ddiogelu gwasanaethau iechyd meddwl, ac yn 2026/27 mae'r bwrdd iechyd wedi clustnodi dros £863 miliwn ar gyfer iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau plant a phobl ifanc. Mae disgwyl i fyrddau iechyd gysoni eu gweithgarwch â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant 'pob oed' a'r cynllun cyflawni cysylltiedig a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025. Mae hyn yn cynnwys trawsnewid ein gwasanaethau iechyd meddwl i ddarparu mynediad yr un diwrnod at gymorth, gan alluogi pobl i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Bydd diweddariad ar y broses o weithredu blwyddyn gyntaf y strategaeth hon yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2026.

**Cynllun Gwên**

Mae tystiolaeth gynyddol yn dangos y bydd plant nad oes ganddynt bydredd dannedd erbyn eu bod yn bump oed yn cael llawer llai o bydredd dannedd drwy gydol eu hoes na phlant sydd â phydredd cyn eu bod yn bump oed.

Mae hyn yn dangos mai atal yw'r allwedd i wella iechyd y geg ymhlith plant, a bydd hyn yn gofyn am ddull amlweddog sy'n ehangach na dim ond mynd i archwiliadau ar adegau penodol.

Cynllun Gwên yw ein rhaglen genedlaethol allweddol yn y maes hwn, a'i nod yw lleihau anghydraddoldebau iechyd y geg yng Nghymru drwy dargedu plant mewn cymunedau difreintiedig â mesurau atal rhad ac am ddim sy'n seiliedig ar dystiolaeth, megis brwsio dannedd dan oruchwyliaeth, farnais fflworid, ac addysg, gan sicrhau bod y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o iechyd y geg gwael yn cael cymorth cynnar a chyson. Dewisir ysgolion a meithrinfeydd yn seiliedig ar ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Darperir £4 miliwn y flwyddyn i'r Cynllun Gwên, ac mae'r dyraniad hwn wedi'i glustnodi yng nghyllideb deintyddol gofal sylfaenol y byrddau iechyd. Caiff gweithgarwch a gwariant eu mesur drwy adroddiad blynyddol a baratoir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a chaiff canlyniadau plant eu mesur drwy'r astudiaethau epidemioleg a gynhelir i asesu cyffredinrwydd a difrifoldeb pydredd dannedd ymhlith plant 5 oed a 12 oed - Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol Cymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Amseroedd aros**

Mae lleihau pob amser aros sy'n hirach na dwy flynedd, ni wnaeth beth fo'r sefyllfa o ran oedran, yn brif flaenoriaeth; yn 2025–26 mae'r flaenoriaeth hon wedi'i chefnogi drwy ddarparu £120 miliwn ychwanegol. Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn

amseroedd aros hirach na dwy flynedd i blant. Mae'r sefyllfa ym mis Hydref 2025 yn dangos gostyngiad o 90% o gymharu â'r niferoedd ym mis Ebrill 2022.

Mae pob bwrdd iechyd wedi dangos gostyngiad ac nid oes dim ym Mhowys nac Abertawe. Mae llai nag 20 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Er i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ddangos gostyngiad o 72.5% ym mis Hydref 2025 o gymharu â'r sefyllfa ym mis Ebrill 2022, mae ar hyn o bryd yn cyfrif am bron 65% o'r holl amseroedd aros hirach na dwy flynedd. Mae cymorth penodol drwy fesurau gofal arbennig yn cael ei ddarparu i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr er mwyn iddo fynd i'r afael â'i holl amseroedd aros hir, gan gynnwys ar gyfer plant, a'r prif heriau yw'r gwasanaethau clust, trwyn a gwddf ac orthodonteg.

Mae’r rhwydwaith Iechyd Plant wedi nodi nifer o gamau penodol y mae’n dymuno gweithio arnynt gyda byrddau iechyd, ynghyd â’r rhaglen gofal a gynlluniwyd, er mwyn cefnogi'r ffocws ar fynd i'r afael ag amseroedd aros hir drwy weithio mewn ffyrdd gwahanol. Un o'r camau gweithredu yw'r angen i ystyried targedau newydd posibl ar gyfer amseroedd aros plant, yn seiliedig ar angen clinigol ac asesiad ehangach o niwed. Yn 2025, mae amseroedd aros byrrach ar gyfer llwybrau awdioleg eisoes wedi’u sefydlu ar gyfer plant o’u cymharu â llwybrau oedolion.

Byddai gweithredu ar unrhyw argymhellion yn y gwaith hwn yn fater i’r llywodraeth newydd ei ystyried a’i gymeradwyo.

**Datblygu gweithlu iechyd plant cynaliadwy**

- Mae dyraniadau'r gyllideb yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad yng ngweithlu pediatrig Cymru.
- Mae'r GIG bellach yn cyflogi mwy o staff nag erioed o'r blaen, gan gynnwys cynnydd o 48% mewn meddygon ymgynghorol pediatrig dros y degawd diwethaf.
- Bu cyllid wedi'i dargedu yn fodd i ehangu adnoddau hyfforddiant pediatrig am gyfnod estynedig, gyda 18 o swyddi hyfforddi newydd wedi’u hychwanegu ers 2020.
- Bydd y llif hwn yn cryfhau argaeledd meddygon ymgynghorol ledled Cymru ac yn cefnogi gwell mynediad at ofal o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc.

**Diogelu Plant**

Mae cyllideb y gangen Diogelu ac Eiriolaeth yn cynnwys y cyllid canlynol y cytunwyd arno ar gyfer 2026–2027:

- £550,000 i gefnogi'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran eiriolaeth i blant a phobl ifanc
- £12,000 i Tros Gynnal Plant i gefnogi'r gwaith o gynnal set ddata ar gyfer y Cynnig Gweithredol o ran eiriolaeth
- £527,000 gwasanaeth llinell gymorth ac eiriolaeth MEIC i blant
- £72,000 i gefnogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol i roi hyfforddiant diogelu amlasiantaethol i weithwyr proffesiynol

- £12,000 arall i gefnogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol i ddarparu gweithgareddau yn ystod Wythnos Diogelu
- £50,000 i gefnogi Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru i ddatblygu a chynnal y gweithdrefnau a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan
- £108,000 i Childline NSPCC
- £25,000 i archwilio'r broses o osod dyletswyddau adrodd gorfodol unigol
- £50,000 i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru
- £75,000 i gyflawni ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol ar atal cam-drin plant yn rhywiol
- £200,000 i gefnogi gwaith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Yn ogystal, drwy'r Grant i'r Trydydd Sector:

- £190,000 i Sefydliad Lucy Faithfull i gyflawni dau brosiect ar gyfer plant a'u teuluoedd y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt

**Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2026-2027**

- Sefydlu'r strwythur cyflawni sy'n ofynnol i gyflawni'r Strategaeth Genedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2026-2036)
- Dechrau rhoi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol (2026-2029) ar waith

**Niwrowahaniaeth**

Dileu'r achosion o aros am dair blynedd am asesiadau niwroddatblygiadol plant:

- Yn dilyn buddsoddiad wedi'i dargedu gwerth £3 miliwn yn 2024/25, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddileu'r achosion o aros am bedair blynedd, a ddangosodd y gallu i sicrhau newid cyflym ac effeithiol. Mae £5.6 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer 2025–26, sydd wedi'i anelu'n benodol at ddileu, erbyn mis Mawrth 2026, bob achos o aros tair blynedd am asesiad niwroddatblygiadol plant. Ar hyn o bryd, er bod rhai heriau o ran caffael asesiadau preifat mewn tri bwrdd iechyd, mae pob un o'r saith ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau y cytunwyd arnynt ar eu cyfer ac i ddileu achosion o aros am dair blynedd, yn ogystal â'r byrddau iechyd hynny sydd ar y trywydd iawn i ddileu'r rhai dros ddwy flynedd.
- Mae papur opsiynau yn cael ei baratoi i ystyried y dyraniad cyllid o £5.6 miliwn ar gyfer 2026/27, er mwyn sicrhau bod y momentwm yn cael ei gynnal, ochr yn ochr â herio byrddau iechyd eraill i symud tuag at ddileu achosion o aros dros ddwy flynedd.

**Arbedion Economaidd ac Effeithlonrwydd**

- Mae diagnosis cynnar yn lleihau costau yn y dyfodol drwy wneud ymyriadau wedi'u targedu yn gynharach yn bosibl, gan helpu plant i gyrraedd cerrig milltir datblygiadol ac o bosibl leihau'r galw ar wasanaethau cywirol

- Mae byrddau iechyd eisoes yn trawsnewid llwybrau fel eu bod yn fwy darbodus, gan ddod o hyd i effeithlonrwydd yn y system a chyllid ychwanegol.

**Effaith ar Blant a Theuluoedd**

- Mae oedi hirfaith cyn diagnosis ac ymyrryd yn cael effaith andwyol ar ddysgu cynnar, datblygiad emosiynol, a chynhwysiant cymdeithasol; mae dileu amseroedd aros hir yn sicrhau y gellir cyflawni'r nod o roi cymorth i blant pan fo ei angen fwyaf.
- Mae rhieni a gofalwyr sy'n gorfod ymdopi â chyfnodau o ansicrwydd yn nodi eu bod yn profi straen ac yn teimlo'n ynysig; mae asesiadau amserol yn meithrin tawelwch meddwl a chysylltiad â gwasanaethau. Dau sefydliad sy'n cael y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar hyn o bryd: Gofynnwyd i'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (£67,000) ac Autism Spectrum Connections Cymru (£300,000) symud tuag at roi cymorth i deuluoedd cyn ac ar ôl diagnosis gan fod y grant yn parhau tan fis Mawrth 2027.
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc: Comisiynwyd Plant yng Nghymru i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sy'n niwrowahanol ar ystod o feysydd sy'n ymwneud â niwrowahaniaeth, gan gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer Niwrowahaniaeth, fel bod eu lleisiau a'u profiad bywyd yn gallu llywio polisïau a'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth yn uniongyrchol.

**Hwyluswyr Digidol i gefnogi/wella asesiadau a gwasanaethau niwrowahaniaeth**

- Mae rhai rhanbarthau eisoes wedi symud ymhellach ac yn gyflymach, gyda deallusrwydd artiffisial yn nodwedd allweddol.
- Yn BIPCTM (gyda chefnogaeth y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol) mae peilot Technoleg Ysgrifennu Deallusrwydd Artiffisial, a oedd yn defnyddio 'Magic Notes', wedi dod i ben yn ddiweddar, ac mae'r dechnoleg hon wedi cael ei defnyddio mewn asesiadau niwroddatblygiadol o blant. Mae technoleg ysgrifennu 'Magic Notes', a ddatblygwyd yn wreiddiol i gynhyrchu asesiadau mewn cyd-destunau gofal cymdeithasol, yn cofnodi asesiadau mewn amser real ac yn gallu defnyddio'r recordiadau, ynghyd ag adroddiadau eraill, i lunio asesiadau manwl.
- Mae'r cynllun peilot yn rhan o ymgyrch ehangach i wella'r llwybr niwroddatblygiadol yng Nghymru drwy leihau'r baich gweinyddol, lleihau amseroedd aros, a sicrhau canlyniadau gwell i blant a theuluoedd. Mae ail gynllun peilot ar fin dechrau yn BIPHDd er mwyn cymharu'r data a'r profiad.

**Cymhorthion Cyfathrebu Atgyfnerthol ac Amgen (e.e. PECS, Joyreal, Dynavox): Lleoliad Prosiect Ymchwil mewn Ymarfer**

- Bydd adolygiad cwmpasu, o dan arweiniad myfyriwr PhD o Brifysgol Bangor, yn cael ei ariannu i archwilio'r defnydd o Gymhorthion Cyfathrebu Atgyfnerthol ac Amgen a'u manteision, yn enwedig cymhorthion digidol megis PECS (System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau), a ddyluniwyd i helpu unigolion ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac sy'n ddieiriau, i fynegi eu hunain; gan hyrwyddo

annibyniaeth, rhyngweithio cymdeithasol a chynhwysiant. Bydd y gwaith yn dechrau ym mis Mawrth am 12 wythnos.

## Argymhelliad 5

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r meysydd o fewn Iechyd Plant lle mae angen trawsnewid gwasanaethau i wella ansawdd gwasanaethau, lleihau amseroedd aros, creu arbedion effeithlonrwydd o ran gwasanaethau a gwella canlyniadau. Dylai hyn gynnwys esboniad o sut mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â rhaglen drawsnewid ehangach y GIG.

**Ymateb: Cytuno mewn egwyddor**

Bydd y Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Iechyd Plant yn nodi safonau clir, mesuradwy ar gyfer gwasanaethau plant, ac yn darparu fframwaith i gefnogi byrddau iechyd i flaenoriaethu gwelliannau o ran ansawdd a mynediad. Bydd hefyd yn cefnogi byrddau iechyd i nodi lle y mae angen trawsnewid, ac yn sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd ag agenda drawsnewid ehangach y GIG.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Plant i nodi meysydd gwasanaeth lle y mae angen newid fwyaf, er enghraifft, gwella'r broses o bontio a throsglwyddo rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

## Argymhelliad 6

Wrth ddarparu'r wybodaeth a amlinellir yn Argymhelliad 5, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ac yn gryno'r meysydd gwasanaeth sydd angen buddsoddiad ariannol ychwanegol i gefnogi trawsnewid gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys manylion lefel y buddsoddiad ariannol sydd ei angen, a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyflawni sefyllfa ariannu gynaliadwy. Wrth wneud hyn, hoffem gael gwybodaeth glir am yr effaith ar blant a phobl ifanc sy'n cael mynediad at y gwasanaethau hyn neu sy'n ceisio cael mynediad atynt, a sut y bydd canlyniadau'n cael eu mesur.

**Ymateb: Cytuno mewn egwyddor**

Y Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Iechyd Plant yw'r cam cyntaf tuag at nodi blaenoriaethau trawsnewid, a fydd yn amlygu'r gofynion buddsoddi a'r amserlenni ar gyfer cyflawni canlyniadau'r broses drawsnewid, sut y byddant yn cael eu mesur, a threfniadau ariannol cynaliadwy. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ddatblygu opsiynau a chyngor ar gyfer y Llywodraeth nesaf.

## Argymhelliad 7

Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r cyfarfod rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y rhyng-gysylltiad rhwng iechyd ac addysg a chymorth ar gyfer ADY. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys gwybodaeth am unrhyw un o'r materion cyllidebol, polisi neu ddiwylliannol sy'n cael sylw ar hyn o bryd o ganlyniad i'r trafodaethau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae dwy drafodaeth wedi cael eu cynnal rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Maent wedi ceisio deall yr heriau a'r rhwystrau i integreiddio, yn ogystal â'r wybodaeth am y sector a ddaeth i'r amlwg drwy'r Adolygiad deddfwriaethol o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r gwerthusiad o ADY. Yn ystod y cyfarfodydd, cytunodd yr Ysgrifenyddion Cabinet ar nifer o gamau gweithredu allweddol

Yn bwysig ddigon, gwnaethant gytuno ar ymrwymiad ar y cyd i integreiddio a chydweithio amlasiantaethol i ddiwallu anghenion iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg plant a phobl ifanc ag ADY, a chyhoeddwyd hyn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg mewn datganiad llafar ar Ddiwygiadau ADY.

Mae gwaith adeiladol yn mynd rhagddo ar lefel swyddogol i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu isod:

- Gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd a/neu ADY yn cael eu hymgorffori ym mhrosesau cynllunio a chomisiynu blaenoriaethau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys datblygu Gwaith cyfathrebu ar y cyd ar draws iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i wella cynllunio integredig amlasiantaethol, gan adeiladu ar ddigwyddiad tynnu sylw ar y cyd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2025.
- Cryfhau cynllunio ar sail ardal drwy wella'r gwaith o rannu data ar lefel poblogaeth rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd ynglŷn â phlant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd a/neu ADY er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer galw a chapasiti.
- Penodi cynghorydd proffesiynol i'r GIG ar gyfer cydweithredu amlasiantaethol er mwyn ysgogi gwelliannau mewn integreiddio a chynllunio systemau, datblygu disgwyliadau cyflawni ar y cyd, a dangosyddion perfformiad allweddol fel bod cyfrifoldebau ac amserlenni'n dryloyw.
- Datblygu datganiad polisi iechyd clir i lywio'r gwaith o gynhyrchu canllawiau amlasiantaethol newydd mewn perthynas â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg gyda phartneriaid cyflawni er mwyn sicrhau eglurder a

chysondeb o ran arferion a chysoni disgwyliadau rhwng lleoliadau iechyd ac addysg.

- Gwella eglurder rolau a chyfrifoldebau i bawb sy'n ymwneud â chefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd drwy adolygu a diweddaru'r canllawiau *Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd*, a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â fframweithiau a chanllawiau perthnasol eraill, gan gynnwys y *Fframweithiau ar Gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion* a'r *Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc.* Bydd y gwaith hwn yn ystyried newidiadau yn nemograffeg dysgwyr ac yn atgyfnerthu rolau a chyfrifoldebau ar draws sectorau i gysoni disgwyliadau ymhlith byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, ysgolion, a phlant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, er mwyn hyrwyddo arferion effeithiol a chyson o ansawdd uchel wrth ddiwallu anghenion dysgwyr.
- Archwilio cyfleoedd i gysoni ymhellach y polisi ynghylch trawsnewid y system i sicrhau ei bod yn seiliedig ar anghenion ac yn gynhwysol, yn enwedig mewn perthynas â niwrowahaniaeth.

Cynhelir cyfarfodydd pellach ddwywaith y flwyddyn, lle y bydd y camau gweithredu hyn yn parhau i gael eu hadolygu.

# 4. Addysg

## Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu cyfeirio at awdurdodau lleol, a chefnogi awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gallu cyfeirio rhywfaint o'r cyllid ychwanegol hwn at ysgolion.

**Ymateb: Derbyn**

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai y setliad llywodraeth leol terfynol ar 20 Ionawr. O ganlyniad i gytundeb y gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, sy'n cynnwys £112.8 miliwn ychwanegol i gefnogi llywodraeth leol, bydd cyllid refeniw craidd awdurdodau lleol yn y setliad terfynol yn cynyddu 4.5% ar sail tebyg am debyg o gymharu â 2025-26, ac ni fydd yr un awdurdod yn cael cynnydd sy'n llai na 4%.

Nid yw cyllid awdurdodau lleol wedi'i neilltuo ac felly pennir blaenoriaethau ar sail penderfyniadau a wneir yn lleol. Fodd bynnag, rydym wedi ailddatgan ac wedi pwysleisio ein blaenoriaethau ar y cyd i'r awdurdodau lleol, sy'n cynnwys addysg, ac ariannu ysgolion, a hynny drwy'r llythyr cyllido at arweinwyr awdurdodau lleol ar 20 Ionawr. Mae'r llythyr yn cydnabod y cyfle gwerthfawr sydd gan awdurdodau lleol i ddyrannu adnoddau i ysgolion, er mwyn canolbwyntio ar y pwysau allweddol sy'n ymwneud ag ADY, cludiant i'r ysgol, y gweithlu, a llwyth gwaith.

## Argymhelliad 9

Cyn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol, dylai Llywodraeth Cymru nodi manylion yr holl gyllid canlyniadol sy'n deillio o Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU ym mis Mehefin a Chyllideb yr Hydref, lle bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu, a darparu rhesymau clir dros y penderfyniadau hyn. Os yw arian yn mynd i'r Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol, dylai Llywodraeth Cymru nodi beth yr hoffai weld y cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer neu o leiaf beth y mae'n cael ei ddyrannu ar ei gyfer yn dybiannol, gan barchu'r ffaith mai penderfyniadau i awdurdodau lleol yw'r rheini yn y pen draw. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd esbonio unrhyw achosion lle mae cyllid canlyniadol yn cael ei ddyrannu i feysydd gwahanol i'r rhai y mae'n ganlyniadol iddynt.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid ar 5 Awst 2025 i roi manylion am y cyllid canlyniadol a oedd yn deillio o'r Adolygiad o Wariant gan Lywodraeth y DU ar 11 Mehefin 2025, ac ar 15 Ionawr i roi manylion am y cyllid canlyniadol a oedd yn deillio o Gyllideb yr Hydref.

Mae cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU yn rhan o gyfanswm y grant bloc a ddarperir i Gymru. Caiff penderfyniadau ynglŷn â sut mae arian yn cael ei wario yng Nghymru eu gwneud ar y cyd gan y Cabinet, yn seiliedig ar anghenion Cymru a'n blaenoriaethau. Gwneir penderfyniadau ynghylch y grant bloc, sy'n cynnwys cyllid canlyniadol, fel rhan o'r broses o osod y gyllideb. Eglurir y penderfyniadau hyn yn y dogfennau cyllidebol a gyhoeddir fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol ac maent yn destun proses graffu lawn gan y Senedd. Nid yw cyllid canlyniadol fel arfer yn cael ei drosglwyddo ymlaen i efelychu penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr. Pan fo achos dros wario cyllid canlyniadol yn yr un maes, bydd Gweinidogion yn ystyried hyn fel rhan o'r broses gyllidebol.

Nid yw'r cyllid a ddarparwn i Lywodraeth Leol drwy'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i neilltuo. Lle bo'n briodol, mae llythyr setliad llywodraeth leol yn nodi cyd-destun ein penderfyniadau ac, felly, ein disgwyliadau gan awdurdodau lleol. Fel y nodir yn yr ymateb i argymhelliad 8, mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at arweinwyr awdurdodau lleol, dyddiedig 20 Ionawr, yn cydnabod y bydd yr £112.8m ychwanegol sy'n cael ei ddarparu i awdurdodau lleol yn y Gyllideb Derfynol yn helpu i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd, yn enwedig y sectorau allweddol hynny sy'n wynebu gofynion cynyddol, fel Addysg a Gofal Cymdeithasol. O ystyried bod cyllid awdurdodau lleol yn cyfrif am dros 80% o gyllid addysg, mae'r cynnydd o 4.5% yn y setliad llywodraeth leol yn cynnig cyfle i awdurdodau lleol ddyrannu adnoddau sylweddol i'w hysgolion, i ganolbwyntio ar bwysau allweddol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), cludiant ysgol,

gweithlu, a llwyth gwaith. Bydd y cyllid ychwanegol hefyd yn helpu i barhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol hanfodol i blant ac oedolion.

## Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y rhesymau dros y cyllid o £1.97 miliwn ar gyfer darpariaeth conservatoire, gan gynnwys a gafodd y penderfyniad ei wneud gan Lywodraeth Cymru neu Medr, beth fydd y cyllid yn ei gyflawni a sut mae hyn yn cysylltu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r dyraniad i Medr ar gyfer darpariaeth conservatoire yn cael ei ariannu o Linell Wariant y Gyllideb ar gyfer Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio, sydd o dan gyfrifoldeb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

Cyfeiriwn y Pwyllgor at adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar y Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 ac at ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 8, sy'n rhoi rhagor o fanylion am y dyraniad o £1.97 miliwn i Medr i gefnogi darpariaeth conservatoire cerdd a drama yn seiliedig ar berfformiad.